BETH YW CYNLLUNIO?

RTPI
mediation of space • making of place
cyd drefnu gofod • creu cynefin

Wyt ti erioed wedi meddwl pam fod dinasoedd, trefi a phentrefi yn cael eu hadeiladu mewn ffordd arbennig?

Pwy sy'n penderfynu ble mae'r adeiladau, y ffyrdd a'r parciau yn cael eu creu?

A yw hi'n bwysig i ti lle rwyt ti'n byw, yn mynd i'r ysgol, yn siopa, yn chwarae, a lle mae dy fam neu dy dad yn gweithio?

Mae **'Cynllunio'** yn golygu sut yr ydym yn gwneud penderfyniadau ac yn cynllunio ar gyfer dyfodol dinasoedd, trefi, pentrefi a chefn gwlad.

Drwy gynllunio, rydym yn gwneud yn siŵr bod gennym ni ddigon o dai i fyw ynddynt, bod gennym ni le i fynd i chwarae neu siopa, bod gennym adeiladau lle gall pobl fynd i weithio, a bod gennym ni adeiladau cymunedol i bawb eu defnyddio, fel ysgolion, ysbytai a mannau addoli, yn ogystal â sicrhau ein bod ni'n gallu symud o gwmpas – ar feic, yn y car, ar fws neu drên, neu ar droed.

Mae pobl sy'n gweithio yn y byd cynllunio yn gwneud llawer o swyddi gwahanol. Mae rhai pobl yn ceisio amddiffyn cefn gwlad a'r arfordir; mae rhai pobl yn dylunio trefi a dinasoedd fel eu bod yn cynnwys adeiladau atyniadol; mae rhai yn gweithio i ddiogelu ein hen adeiladau sy'n bwysig i'n hanes lleol neu genedlaethol; ac mae pobl eraill yn cynllunio trafnidiaeth. Mae rhai cynllunwyr yn gweithio gyda phobl a chwmnïau er mwyn defnyddio tir ac adeiladau yn y ffordd orau.

Mae llawer o gynllunwyr yn gweithio mewn awdurdodau lleol neu gynghorau, a'u gwaith nhw yw cynllunio ein trefi. Weithiau bydd pobl neu gwmnïau am godi adeiladau newydd, a bydd y cynllunwyr yn edrych ar y cynlluniau, ac yn penderfynu a ydynt yn cael eu hadeiladu nhw ai peidio (weithiau mae'n rhaid iddynt benderfynu tynnu adeiladau i lawr hefyd). Er mwyn gwneud penderfyniadau fel hyn, mae'n rhaid iddynt bwyso a mesur llawer o wahanol bethau a gwneud siwr eu bod yn gwneud y penderfyniad sydd orau i bawb – y cyhoedd, sef ti a fi. Maent yn gorfod ystyried pa mor fawr yw'r adeilad, sut fydd yn edrych y drws nesaf i'r adeiladau sydd yno'n barod, a fydd yna ormod o sŵn, a fydd yn gwneud yr aer yn fudr, sut fydd pobl yn ei gyrraedd – a fydd llawer o geir yn gyrru iddo, a fydd yn achosi problemau i'r amgylchedd?

Mae'r holl bethau hyn y maent yn eu hystyried yn cyfrannu at 'ddatblygu cynaliadwy'. Mae'n rhaid i gynllunwyr ystyried y pethau hyn a sut fydd adeiladau newydd yn effeithio ar yr amgylchedd o'u cwmpas – a fyddant yn gwneud drwg i'r amgylchedd, a sut y gallant ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae cynllunwyr hefyd yn deall bod lleoedd yn wahanol i'w gilydd. Maent yn gorfod meddwl am ardaloedd trefol, sef y trefi a'r dinasoedd. Mae llawer o bobl yn byw ac yn gweithio yn yr ardaloedd hyn. Mae ynddynt gymysgedd o wahanol adeiladau a gofodau – tai a fflatiau, ffatrïoedd, swyddfeydd, siopau, parciau a sinemâu, yn ogystal ag ysgolion ac ysbytai.

Mewn ardaloedd gwledig, mae'r tir yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd wahanol. Mae llai o bobl yn byw mewn ardaloedd gwledig, felly mae llai o adeiladau yno. Yn aml, bydd tir yng nghefn gwlad yn cael ei ddefnyddio i ffermio neu ar gyfer coedwigoedd. Mae'r lleoedd hyn hefyd yn cael eu defnyddio fel mannau chwarae, a bydd pobl yn dod ar eu gwyliau yma – felly bydd yma barciau carafannau a meysydd gwersylla, yn ogystal â chanolfannau twristiaid.

Mae'n rhaid i gynllunwyr hefyd wneud yn siwr bod lleoedd i ni roi ein sbwriel, lleoedd i fwyngloddio glo, neu greu ffyrdd eraill o gynhyrchu trydan, lleoedd i chwarela am gerrig er mwyn gwneud ffyrdd ac adeiladau, yn ogystal â lleoedd i storio dŵr, fel bod gennym ni gyd ddŵr.

Mae'n rhaid i gynllunwyr wneud penderfyniadau anodd er mwyn gwneud yn siwr bod lleoedd braf gyda ni i fyw, gweithio, chwarae a mynd i'r ysgol a bod cefn gwlad yn cael ei ddiogelu. Y tro nesaf yr wyt ti'n ymweld ag ardal wahanol, meddylia sut y mae'n edrych, a oes yno'r holl adeiladau a mannau agored sydd eu hangen, ac a yw'n ddiogel?



Cynhyrchwyd gan RTPI Cymru

Mae'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yn elusen a gofrestrwyd yn Lloegr 262865 ac yn yr Alban SC 037841.
Cyfeiriad cofrestredig: 41 Botolph Lane, London EC3R 8DL.

www.rtpi.org.uk